| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **BWRDD Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **1af o Dachwedd 2011** |
| **TEITL** | **Hafan Pwllheli** |
| **PWRPAS** | **I dderbyn cymeradwyaeth y Bwrdd** |
| **ARGYMHELLIAD** | **a) Cefnogi'r Cynllun Gweithredu Hafan Pwllheli a threfniadau ariannu cysylltiedig**<br>**b) Nodi'r angen i ymateb yn sydyn i'r heriau amrywiol sy'n wynebu'r Hafan, a lleihau risgiau ariannol i'r Cyngor yn ystod 2012/13**<br>**c) Nodi'r bwriad o symud ymlaen i baratoi cynllun tymor hir ar gyfer Hafan Pwllheli** |
| **AWDUR** | **Sioned Williams, Pennaeth Economi a Chymuned** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Cynghorydd Roy Owen** |

**1. CEFNDIR**

1.1 Ers ei ddatblygu ddechrau'r 1990au, mae Hafan Pwllheli wedi esblygu yn un o gyrchfannau hwylio gorau'r wlad sy'n darparu 410 o angorfeydd pontŵn, ac yn cynnig mynediad i ddyfroedd hwylio gorau'r Deyrnas Gyfunol. Mae'r Hafan yn cynnig ystod o gyfleusterau marina yn cynnwys swyddfeydd, ystafelloedd newid, cawodydd, toiledau, ardal storio cychod diogel, craen 40 tunnell, craen symudol a darpariaeth barcio.

1.2 Dros y blynyddoedd mae Hafan Pwllheli wedi bod yn llwyddiannus iawn yn sefydlu Pwllheli yn gyrchfan hwylio rhyngwladol, gan hefyd sbarduno gweithgaredd economaidd yn yr ardal. Yn 2002, bu i'r Cyngor gomisiynu asesiad effaith economaidd yr Hafan, ac yn seiliedig ar waith ymchwil, amcangyfrifwyd fod yr Hafan wedi creu neu gefnogi tua 200 o swyddi, ac yn arwain at £20 miliwn o drosiant yn yr economi leol yn flynyddol. Hefyd, mae buddion cysylltiedig megis gwella delwedd yr ardal, amwynderau, proffil marchnata, a hyder busnes. Mae'r Hafan felly yn ased economaidd eithriadol bwysig sydd hefyd yn cyfrannu ar strategaeth ariannol y Cyngor.

1.3 Mae Pwllheli hefyd yn denu nifer o ddigwyddiadau a chystadlaethau cenedlaethol a rhyngwladol. O fewn y byd hwylio ystyrir Pwllheli yn un o dri lleoliad pwysicaf y Deyrnas Gyfunol gyda'r gallu i gynnal digwyddiadau sylweddol ar gyfer cychod bach dingi (y ddau leoliad arall yw Weymouth yn Lloegr a Largs yn yr Alban). Eleni, yn ogystal â chynnal nifer helaeth o gystadleuaeth llai, llwyddodd Clwb Hwylio Pwllheli gynnal 11 pencampwriaeth sylweddol gan ddenu tua 1,500 o gystadleuwyr. Mae'r llwyddiant yma hefyd yn adlewyrchu safon arbennig dyfroedd hwylio sydd ar gael ym Mae Tremadog.

1.4 Fodd bynnag, mae sawl her wedi ei adnabod gallai arwain at danseilio'r llwyddiant sy'n gysylltiedig â'r Hafan. Mae ystod a chymhlethdod ystyriaethau sydd ynghlwm i'r Hafan a'r harbwr ym Mhwllheli yn eang, ond gellir crynhoi'r prif heriau fel a ganlyn :

i) Dirwasgiad economaidd wedi effeithio ar y sector forwrol (a'r galw am angorfeydd)
ii) Lefelau siltio yn y sianel yn effeithio ar fynediad i'r harbwr
iii) Diffyg capasiti mewn lleoliadau addas ar gyfer gwaredu gwaddodion o'r harbwr
iv) Cynnydd diweddar mewn costau megis treth ar werth a thanwydd sydd yn effeithio'r sector forwrol
v) Cyflwr bregus y sector forwrol wedi arwain at gystadleuaeth gynyddol ymysg marinas am gwsmeriaid

1.5 Pwrpas yr adroddiad yma yw ceisio crynhoi'r prif ystyriaethau ynghlwm i'r materion uchod, a chyflwyno Cynllun Gweithredu ar gyfer ymateb yn gadarnhaol i'r sefyllfa. Mae'r Cynllun Gweithredu wedi ei ddatblygu er mwyn ymateb yn syth, ac yn benodol ar gyfer tymor 2012/13 ymlaen. Serch hynny, mae mesurau unigol hefyd yn debygol o gyfrannu at welliannau tymor hir.

1.6 Yng Nghynllun Busnes yr Adran ar gyfer 2011/12, mae bwriad o gynnal adolygiad o drefniadau rheoli Hafan Pwllheli, gan gymryd i ystyriaeth datblygiad yr Academi Hwylio, rheolaeth yr harbwr, strategaeth garthu a chyfleoedd i'r dyfodol. Fel rhan o'r gwaith mae bwriad hefyd o gomisiynu adroddiad yn ystyried modelau rheoli tymor hir. Rhagwelir mai gwaith cychwynnol ydyw, a bydd gwaith bellach i bwyso a mesur gwahanol ystyriaethau gan gynnwys blaenoriaethau ac amcanion y Cyngor, cyfrifoldebau, ymarferoldeb gweithredu, risgiau ariannol, ac amserlen gweithredu posibl. Yn ymarferol, ni ragwelir y bydd buddsoddiad pwysig Cynllun Academi Pwllheli yn cael ei gwblhau tan 2013, a bod angen gweledigaeth gydlynol a chynaliadwy i'r tymor hir sydd yn uchafu gwerth a photensial yr adnoddau cysylltiedig.

1.7 Yn sgil y sefyllfa bresennol, mae'n werth nodi hefyd fod llawer o amser ac ymdrechion swyddogion wedi bod yn ceisio ymateb i'r heriau presennol. Os am uchafu gwerth yr Hafan, argymhellir fod angen ymateb i'r heriau presennol a fyddai hefyd yn cynnig sylfaen a chyfrannu at lwyddiant yr Hafan i'r dyfodol.

## 2. MATERION ALLWEDDOL YN CODI

2.1 Tra'n nodi ystod eang yr heriau presennol sy'n wynebu'r Hafan, mae dau fater allweddol sydd yn ganolog iddynt, sydd hefyd o fewn rheolaeth y Cyngor, sef :

a) Materion Carthu'r Harbwr (a'r sianel)
b) Ffioedd blynyddol yr Hafan

2.2 Fe ystyrir y materion allweddol hyn yn eu tro.

2.3 <u>Materion Carthu'r Harbwr</u>

2.3.1 Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am faterion carthu yn y sianel ac o fewn yr harbwr. Mae hyn yn cael ei weithredu gan Uned Amddiffyn Arfordir, Ymgynghoriaeth Gwynedd gyda mewnbwn gan yr Uned Forwrol, Adran Economi a Chymuned.

2.3.2 Cyn trefnu unrhyw waith carthu o fewn yr harbwr, mae angen sicrhau ystod o ganiatadau statudol (caniatâd cynllunio, trwyddedi FEPA, Caniatad Deddf Amddiffyn Arfordir ayyb) gan wahanol asiantaethau statudol. Hefyd, mae nifer o ddynodiadau ac ystyriaeth amgylcheddol yn perthyn i'r ardal gan gynnwys Ardal Gadwraeth Arbennig, Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, a gwarchodfa natur. Yn ymarferol, mae angen paratoi cynigion sydd yn parchu'r cyfyngiadau a dynodiadau amgylcheddol, ac mae'r gwaith o baratoi'r manylion a data angenrheidiol yn medru bod yn faith a chostus.

2.3.3 Yn achos harbwr Pwllheli mae cyfyngiadau pwysig eraill sydd yn berthnasol o safbwynt paratoi neu weithredu cynlluniau megis :

- Diffyg capasiti ar gyfer gwaredu gwaddodion o'r harbwr
- Cost cyfalaf sylweddol ynghlwm a chynlluniau carthu

2.3.4 Yn 2008, bu i'r Cyngor gomisiynu Strategaeth Garthu tymor hir oedd yn ymgorffori'r cyfyngiadau perthnasol. Yn unol â'r strategaeth hon, trefnwyd rhaglen garthu sylweddol yn 2010 - ond cafwyd y contractwr anawsterau gweithredol ac roedd oediad sylweddol yn cwblhau'r gwaith. Yn gyffredinol, ymddengys fod y gwaith wedi cyflawni'r amcan o garthu yn unol â'r lefel dyluniad, ond bod rhai ardaloedd penodol yn y sianel yn ymylol, ac yn debygol o siltio ymhellach gydag amser.

2.3.5 Yn ystod Gaeaf 2010/11, gwelwyd lefelau siltio aruthrol o uchel wrth geg yr harbwr, a threfnwyd gwaith pellach ym mis Ebrill 2011 i symud dros 54,000 tunnell oddi yno. Roedd hefyd lefelau siltio mewn mannau penodol o'r sianel, a threfnwyd gwaith lefelu gwely'r harbwr yn ystod yr haf fel mesur dros dro yn unig. Mae siltio mewn mannau o'r sianel yn medru cyfyngu ar fynediad i mewn ac allan o'r harbwr, yn ddibynnol ar gyflwr y llanw a dyfnder cychod.

2.3.6 Mae'r ddwy flynedd ddiwethaf yn arbennig wedi dangos cryfder prosesau arfordirol naturiol sydd ar waith, a pha mor gyfnewidiol yw amgylchedd yr harbwr. Mae arolygol hydrograffig yn dangos fod dyfnder naturiol y sianel wedi symud i leoliad lle mae polion ac angorfeydd y sianel ar hyn o bryd. Wrth gynllunio i'r dyfodol, drwy ail-leoli rhai o'r polion hyn gellid defnyddio dyfnder naturiol y sianel ar gyfer mordwyo, gan leihau yr angen am garthu sylweddol a'i waredu.

2.3.7 Elfen allweddol bwysig pan yn ystyried materion carthu yw'r dull / lleoliad ar gyfer gwaredu gwaddodion o'r harbwr. Yn hanesyddol, mae tomen tywod ('stockpile') wedi ei leoli ger ceg yr harbwr, gyda'r gwaddod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer adfer traethau, gyda chymorth grant gan y Cynulliad hyd at 85% yn cael ei gynnig. Yn anffodus, nid yw'r grant yma ar gael bellach, ac mae ardal y domen yma yn hollol llawn ar hyn o bryd, ac angen gwirioneddol ei symud.

2.3.8 Yn 2001, bu i'r Cyngor hefyd sefydlu lagŵn yn dal tua 22,000 m3 o waddod ar lain o dir i'r de o'r Hafan. Cafodd y lagŵn yma ei wagio am y tro cyntaf yn 2010 ar (fel rhan o'r cynllun carthu) ond yn sgil y siltio sylweddol a welwyd yn 2010/11 mae'r lagŵn yma eisoes yn hanner llawn. Mae diffyg capasiti presennol i ddelio gyda gwaddod o'r harbwr yn rwystr sylweddol ar hyn o bryd.

2.3.9 Yn sgil datblygiadau dros y tair blynedd diwethaf, ynghyd a datblygiad Cynllun Academi Hwylio Pwllheli, bydd cyfle i adolygu a diweddaru Strategaeth Garthu ar gyfer yr harbwr.

2.4 Ffioedd Blynyddol Hafan Pwllheli

2.4.1 Dros y blynyddoedd mae'r Hafan wedi bod yn llwyddiannus iawn, gydag angorfeydd yn llawn o flwyddyn i flwyddyn ynghyd a rhestr wrth gefn. Mewn cyfnod o dwf, adolygwyd ffioedd blynyddol yr Hafan ers 2005/6 fel a ganlyn :

| Blwyddyn | Chwyddiant | Cynnydd mewn ffioedd |
|---|---|---|
| 2005/6 | 5.00% | + 10% |
| 2006/7 | 2.44% | + 6% |
| 2007/8 | 2.63% | +10% |
| 2008/9 | 2.96% | +6% |
| 2009/10 | 3.26% | +4% |
| 2010/11 | 0.64% | 0 |
| 2011/12 | 1.90% | +1% |
| **Cyfanswm Cronnus** | **20.0%** | **42.8%** |

2.4.2 Yn ystod y cyfnod yma, roedd y galw am angorfeydd yn parhau'n uchel, a drwy godi'r ffioedd sefydlwyd cronfeydd carthu ac adnewyddu i'w buddsoddi yn yr Hafan.

2.4.3 Bellach mae ffioedd blynyddol angorfeydd Pwllheli ymysg yr uchaf yng Nghymru. Mae'r tabl isod yn cynnig cymhariaethau bras gyda lleoliadau eraill yng Nghymru :

| **Lleoliad** | **Ffi Blynyddol (£/m)** | **Esiampl : Cwch 9m** | **Mynediad Llanw (HW+/-)** |
|---|---|---|---|
| Deganway | £379 | £3,411 y.f. | 3.5 |
| Hafan Pwllheli | £355 | £3,195 y.f. | 5 |
| Conwy | £352 | £3,168 y.f. | 3.5 |
| Caergybi | £318 | £2,262 y.f. | Mynediad llawn |
| Neyland | £310 | £2,790 y.f. | Mynediad llawn |
| Port Dinorwig | £290 | £2,610 y.f. | 3 |
| Aberystwyth | £288 | £2,592 y.f. | 3 |
| Penarth | £257 | £2,313 y.f. | Mynediad llawn |
| Abertawe | £230 | £2,070 y.f. | 4.5 |
| Cae Caerdydd | £220 | £1,980 y.f. | Mynediad llawn |
| Doc Fictoria | £213 | £1,917 y.f. | 3 |
| Aberdaugleddau | £196 | £1,764 y.f. | 4 |

(Ffynhonnell : PBO 2011 Marina Price Guide)

2.4.4 Mae'r hinsawdd ariannol wedi cael effaith ar y sector forwrol, gyda rhai lleoliadau yn datblygu ymgyrchoedd marchnata a phecynnau ariannol i gadw neu ddenu cwsmeriaid. Eleni, gwelwyd rhai cwsmeriaid yn symud o Bwllheli i leoliadau eraill ar hyd yr arfordir.

2.4.5 Yn ogystal â'r dirwasgiad economaidd ehangach, mae'r sector forwrol hefyd wedi gwynebu sialensiau ychwanegol megis cynnydd mewn cyfradd TAW, cynnydd sylweddol

mewn pris tanwydd, a lleihad mewn benthyciadau banc sydd wedi effeithio ar werthiannau cychod. Bu i'r Cyngor geisio ymateb i'r sefyllfa drwy beidio codi ffioedd (na chwyddiant) yn 2010/11 nac yn 2011/12 (chwyddiant o 1%).

2.4.6 Serch hynny, ar hyn o bryd (blwyddyn 2011/12) mae oddeutu 47 o angorfeydd pontŵn yn wag yn yr Hafan. Tra bod yr Hafan yn parhau i greu incwm net sylweddol, amcangyfrifir fod 47 o angorfeydd gwag yn lleihau'r incwm blynyddol tua £165,000.

2.4.7 Wrth geisio holi cwsmeriaid am eu penderfyniad dros adael Pwllheli neu dod a chytundeb i ben, mae nifer o resymau wedi eu rhoi, megis :

- Ffioedd blynyddol a chostau eraill
- Mynediad y sianel wedi ei leihau gan siltio, a defnydd yn cael ei gyfyngu
- Hinsawdd ariannol
- Pecynnau cystadleuol yn cael eu cynnig gan leoliadau eraill

2.4.8 Wrth baratoi Cynllun Gweithredu, credir fod cyfle i ymateb yn gadarnhaol i'r materion uchod er mwyn atgyfnerthu statws Hafan Pwllheli fel lleoliad gystadleuol a llwyddiannus.

## 3. PROFFIL A RISGIAU ARIANNOL

3.1 Gellir crynhoi cyllideb sy'n ymwneud â'r Hafan fel a ganlyn (seiliedig ar gyllideb 2011/12)

| **CYLLIDEBAU HAFAN PWLLHELI** | £ |
|---|---|
| **Targed Incwm** | |
| Ffioedd Angorfeydd (100%) | (1,321,850) |
| Ffioedd Eraill | (285,620) |
| **Is-gyfanswm** | **(1,607,470)** |
| | |
| **Costau** | |
| Staff | 261,260 |
| Cytundeb Les y Goron | 160,750 |
| Cronfa Carthu | 112,380 |
| Costau Cyfalaf – Rhent Asedau | 38,540 |
| Costau Eraill | 266,770 |
| **Is-gyfanswm** | **839,700** |
| | |
| **Cyllideb Terfynol yr Hafan** | **(767,770)** |

3.2 Mae cyllidebau'r Hafan yn dangos gwarged o £767,700. Yn ogystal, mae Cronfeydd Morwrol wedi eu sefydlu (drwy gynyddu ffioedd uwchlaw chwyddiant) gwerth £109,830. Mae'r gwahaniaeth rhwng cyllideb terfynol yr Hafan a gwariant y cronfeydd morwrol (sef tua £657,870) yn cyfrannu at Strategaeth Ariannol y Cyngor.

| ***Cronfeydd Morwrol*** | |
|---|---|
| *Cronfa Badau Dwr Gwasanaeth Morwrol* | *£41,020* |

| | |
|---|---|
| *Cronfa Adnewyddu a Gwelliannau Hafan a Morwrol* | *£68,810* |
| ***Cyfanswm*** | ***£109,830*** |

3.3 Mae cyllideb o tua £112,380 yn cael eu neilltuo i'r Gronfa Garthu yn flynyddol. Yn hanesyddol, mae cynlluniau carthu yn cael eu trefnu fesul tair neu bedair blynedd pan fydd cyllideb ddigonol ar gael.

Cyflwr y Farchnad

3.4 Mae'r dirwasgiad economaidd wedi effeithio ar y sector forwrol sydd mewn cyflwr bregus ar hyn o bryd. Mae'n wir dweud fod datblygiadau marinas dros y ddegawd diwethaf wedi cynyddu cyflenwad o angorfeydd; ond yn fwy diweddar gwelwyd rhai marinas yn gweithredu mewn modd mwy rhagweithiol i ddenu cwsmeriaid newydd. Mewn marchnad gynyddol gystadleuol, mae tebygolrwydd pe na fyddai'r Cyngor yn ymateb yn gadarnhaol, yna byddai'r galw am angorfeydd yn lleihau ac y byddai'r incwm cysylltiedig hefyd yn lleihau.

3.5 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd lleihad yn y nifer o gwsmeriaid yn yr Hafan, gyda tua 47 o angorfeydd yn wag sydd yn adlewyrchu natur yr heriau presennol. Er gwaethaf rhagolygon economaidd macro ansicr, mae cyfle i'r Cyngor ymateb yn gadarnhaol i'r sefyllfa. Yng ngwyneb yr heriau presennol, fe allai peidio ymateb arwain at nifer cynyddol o angorfeydd yn wag ar gyfer 2012/13, fyddai yn golygu risg colli incwm pellach i'r Cyngor.

3.6 Mae'r Hafan yn ased economaidd allweddol bwysig i'r ardal, yn arbennig i dref Pwllheli. Wrth reswm, mae angorfeydd gwag yn golygu nad yw'r adnoddau yn cael eu defnyddio'n llawn, gan arwain at leihad mewn gweithgareddau. Mae angorfeydd gwag yn cael effaith ar fusnesau o gwmpas yr harbwr oherwydd lleihad mewn cwsmeriaid a busnes. Ers sefydlu'r Hafan mae clwstwr bwysig o fusnesau morwrol wedi datblygu ym Mhwllheli, ac mae'n amlwg fod perthynas agos rhwng ffyniant y cwmnïau hyn a Hafan lwyddiannus. Byddai cynnydd felly mewn nifer angorfeydd gwag gydag oblygiadau pellach i'r economi leol.

## 4. CYNLLUN GWEITHREDU HAFAN PWLLHELI 2012/13

4.1 Er mwyn ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r Hafan, a dangos ymrwymiad y Cyngor i lwyddiant yr Hafan, yr harbwr a busnesau cysylltiedig, mae Cynllun Gweithredu isod wedi ei baratoi. Mae wedi ei baratoi gan ystyried amryw gyfyngiadau a chyfleoedd, gyda mesurau wedi eu datblygu i wneud Hafan Pwllheli yn fwy atyniadol a chystadleuol er sicrhau llwyddiant i'r dyfodol.

4.2 Mae crynodeb o'r Cynllun Gweithredu wedi ei gynnwys fel **Atodiad 1**.

4.3 Yn ei hanfod, cynllun ydyw i ddenu mwy o gwsmeriaid i'r Hafan er mwyn uchafu'r incwm i'r economi leol a strategaeth ariannol y Cyngor

Rhagdybiaethau Ariannol

4.4 Yn ystod tymor 2011/12, roedd 47 o angorfeydd yn wag, ac o ganlyniad amcangyfrifir fod lleihad incwm gwerth tua £165,000 i'r awdurdod. Yn sgil yr heriau presennol, mae pryderon y gallai'r nifer o angorfeydd gwag gynyddu'n sylweddol yn 2012/13 oni bai fod mesurau mewn lle er ceisio adfer y sefyllfa. Byddai golled o tua rhwng 60 - 70 o gychod presennol yn arwain at sefyllfa ble fyddai cyn lleied a 300 allan o'r 410 mewn defnydd.

4.5 Mae'r amcangyfrif isod yn cynnig crynodeb darluniol o effaith opsiynau ar alw posib am angorfeydd yn yr Hafan ar gyfer 2012/13, a'r oblygiadau cysylltiedig ar lefelau incwm.

| | **'Cost' Gweithredu** | **Amcangyfrif Angorfeydd** | **Incwm Gros** | **Lleihad Incwm (o'i gymharu a'r Hafan yn llawn)** |
|---|---|---|---|---|
| **<u>2011/12</u>** | | | | |
| *<u>Sefyllfa Bresennol</u>* | - | *363* | *£1,270,500* | ***£164,500*** |
| **<u>2012/13</u>** | | | | |
| <u>Opsiwn 1</u><br>'Gwneud Dim' | Dim | 310 | £1,085,000 | **£350,000** |
| <u>Opsiwn 2</u><br>Dim codiad ffi<br>(na chwyddiant) | £70,000 | 350 | £1,225,000 | **£210,000** |
| <u>Opsiwn 3</u><br>Codi `Ffioedd (4.2%)<br>Cynllun Discownt | £100,000 | 360 | £1,260,000 | **£175,000** |
| <u>Opsiwn 4</u><br>Dim codiad Ffi<br>Cynllun Discownt | £170,000 | 390 | £1,365,000 | **£70,000** |

*Targed Incwm (100% o 410 = £1,435,000)

4.6 Mae Opsiwn 4 yn seiliedig ar fesurau sydd wedi eu hymgorffori i'r Cynllun Gweithredu arfaethedig. Amcangyfrifir y byddai modd llenwi hyd at 390 o'r angorfeydd, a fyddai yn creu incwm ychwanegol o tua £280,000 o'i gymharu â 310 angorfa yn llawn.

4.7 Tra bod costau gweithredu wedi eu hadnabod o safbwynt peidio codi'r ffioedd blynyddol, ynghyd a chyflwyno cynllun discownt, mae'r amcangyfrifon uchod yn dangos y byddai cynyddu'r galw am angorfeydd yn arwain at gynnydd net mewn incwm. Mae'n annhebygol y bydd holl angorfeydd yr Hafan yn llawn yn ystod 2012/13, ac fel rhan o drefniadau rheolaeth ariannol y Cyngor, argymhellir hefyd yr angen i addasu targedau incwm (£70,000).

<u>Ariannu'r Cynllun Gweithredu</u>

4.8 Mae'r heriau sy'n wynebu'r Hafan wedi ei adnabod fel risg sylweddol fel rhan o broses cynllunio busnes Cyflawni. Mae gwerth neu gost ar gyfer mabwysiadu trefniadau

arfaethedig mewn perthynas â ffioedd 2012/13 yn cynnwys peidio codi chwyddiant (£70,000); ynghyd a chyflwyno cynllun discownt i gwsmeriaid fyddai'n archebu angorfa yn fuan ar gyfer 2012/13 yn £100,000.

4.9 Fel a nodwyd yn flaenorol, mae cyllidebau'r Hafan yn cynnwys cyfraniadau ariannol blynyddol o £112,380 i'r Gronfa Carthu; ynghyd a £109,830 i'r Gronfeydd Morwrol (offer, angorfeydd ac ati).

4.10 Argymhellir fod balansau presennol y cronfeydd hyn yn cael ei defnyddio ar gyfer gwaith brys o symud domen ceg yr harbwr ynghyd a gwelliannau mordwyo i'r sianel. Bydd y gwaith arfaethedig yn cynnig gwelliannau ar gyfer tymor 2012/13, ac hefyd yn cynnig manteision a chyfleoedd tymor hir.

| | | |
|---|---|---|
| | | Cynllun Gweithredu Hafan |
| **CRONFA GARTHU** | | |
| Balans Presennol | £40,000 | |
| | -£40,000 | Symud Domen Ceg yr Harbwr |
| Balans yn weddill 2011/12 | £0 | |
| | | |
| **CRONFA ADNEWYDDU** | | |
| Balans Presennol | £434,000 | |
| Llai Ymrwymiad Hoist | -£160,000 | |
| Llai Ymrwymiad Tractor | -£30,000 | |
| Is Gyfanswm | £244,000 | |
| | -£110,000 | Symud Domen Ceg yr Harbwr |
| | -£50,000 | Gwelliannau mordwyo i'r sianel |
| Balans yn weddill 2011/12 | £84,000 | |
| | | |

4.11 Mae pwysau cynyddol ar y cronfeydd hyn oherwydd oedran llawer o'r offer, ynghyd ac ystyriaethau hanesyddol yn amlygu gofynion carthu.

4.12 Mae anghenion buddsoddi eisoes wedi eu hadnabod ar gyfer 2012/3 (gan gynnwys manteisio ar offer o beiriannau i'w defnyddio i ddatblygu Cynllun Academi Hwylio, adnewyddu offer gweithredol) a bydd sicrhau cyfraniadau blynyddol i'r cronfeydd yn gwbl angenrheidiol yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Amserlen

4.13 Mae'r Cynllun Gweithredu wedi ei ddatblygu gyda'r bwriad o gynnig pecyn o fesurau gweithredol er mwyn ymateb i'r heriau presennol ac anghenion cwsmeriaid presennol, a thrwy hynny geisio codi hyder o fewn y sector a sicrhau fod Hafan Pwllheli yn atyniadol, gystadleuol a llwyddiannus.

4.14 Er mwyn manteisio i'r eithaf, byddai angen hybu a marchnata'r pecyn, yn arbennig felly hysbysebu ffioedd ar gyfer 2012/13 a manylion unrhyw gynllun discownt, yn ystod

Tachwedd 2011. Gallai unrhyw oediad amharu ar effeithiolrwydd y mesurau i gadw cwsmeriaid presennol ac / neu denu cwsmeriaid newydd i’r Hafan gan fod cyfnod yr Hydref yn gyfnod allweddol wrth i gwsmeriaid wneud penderfyniadau am y tymor nesaf.

4.15 Rhagwelir y bydd cystadleuaeth brwd am gwsmeriaid eleni, a gobeithir y byddai cadarnhau trefniadau’r Cynllun Gweithredu yn galluogi’r Cyngor fod yn rhagweithiol i farchnata’r Hafan yn ystod y cyfnod pwysig yma. Byddai mabwysiadu cynllun discownt (fel sydd eisoes yn weithredol mewn lleoliadau eraill) yn cynnig anogaeth i gwsmeriaid gadarnhau trefniadau a chofrestru cyn diwedd Rhagfyr. Hyd yn oed ar ddiwedd y cyfnod yma, bydd cyfle i’r Cyngor barhau gyda’r ymdrechion marchnata a hyrwyddo adnoddau’r Hafan ynghyd a wahanol agweddau o’r Cynllun Gweithredu.

4.16 Bydd rhai agweddau o’r Cynllun Gweithredu yn gynnig gwelliannau ar gyfer tymor 2012/13, ac mae agweddau eraill i’w datblygu ymhellach yn ystod y cyfnod fydd yn rhoi sylw i agweddau ac anghenion tymor hir. Mae Hafan Pwllheli yn ased eithriadol bwysig i Wynedd, ac er gwaethaf yr heriau presennol, ystyrir fod cyfleoedd er mwyn ymateb iddynt, ac sicrhau llwyddiant yr Hafan i’r dyfodol.

## 5. ARGYMHELLION

5.1 Argymhellir fod y Bwrdd yn

a) Cefnogi’r Cynllun Gweithredu Hafan Pwllheli a threfniadau ariannu cysylltiedig

b) Nodi’r angen i ymateb yn sydyn i’r heriau amrywiol sy’n wynebu’r Hafan, a lleihau risgiau ariannol i’r Cyngor yn ystod 2012/13

c) Symud ymlaen gyda’r bwriad o roi cynllun tymor hir yn ei le

**ATODIAD 1 : CYNLLUN GWEITHREDU HAFAN PWLLHELI 2012/13**

| | Cynllun / Agwedd | Disgrifiad Cryno | Cyfleoedd cysylltiedig | Cost Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Ffioedd Blynyddol Hafan Pwllheli 2012/13 | Sicrhau dim cynnydd mewn ffioedd ar gyfer yr Hafan ar gyfer 2012/13.<br><br>Trefniadau i'w cyhoeddi yn syth er mwyn annog cwsmeriaid presennol i aros ym Mhwllheli | • Ymateb i'n cwsmeriaid a farchnad fregus<br>• Lleihau tebygolrwydd o nifer yn gadael yr Hafan<br>• Lleihau nifer angorfeydd gwag<br>• Lleihau risgiau ariannol i'r Cyngor | Amcangyfrif chwyddiant yn £70,000 (4.2%) | Tachwedd 2011 |
| 2 | Addasu Targed Incwm 2012/13 | Addasu sail targed incwm yr Hafan i 95% o'r angorfeydd yn llawn | • Cyfradd o 100% ddim yn debygol o'i gyflawni yn ystod 2012/13<br>• Cryfhau rheolaeth ariannol o fewn y Cyngor | £70,000 | Tachwedd 2011 |
| 3 | Pecyn Anogaeth Ariannol | Cynnig pecyn o fesurau anogaeth i ddefnyddwyr yr Hafan, gan gynnwys Cynllun Disgownt i gwsmeriaid sy'n cofrestru taliadau ar gyfer 2012/13 cyn diwedd Rhagfyr 2011.<br><br>Trefniadau i'w cyhoeddi yn syth er mwyn annog cwsmeriaid presennol a newydd i gofrestru ar gyfer 2012/13. | • Hafan yn fwy cystadleuol<br>• Sbarduno galw am angorfeydd<br>• Denu cwsmeriaid newydd<br>• Lleihau nifer angorfeydd gwag<br>• Lleihau risgiau ariannol i'r Cyngor<br>• Lleihau cystadleuaeth o leoliadau eraill | £100,000 | Tachwedd 2011 |
| 4. | Symud Domen Dywod ger Ceg yr Harbwr | Symud gwaddodion presennol o'r domen fel rhan o gynllun lleihau llifogydd / gwell traethau.<br><br>Cynyddu capasiti yr ardal i storio a gwaredu gwaddodion i'r dyfodol | • Cynyddu capasiti a goresgyn rhwystr carthu<br>• Gwelliannau traethau cyfagos (a lleihau risg llifogydd)<br>• Cyfrannu at ddarpariaeth a strategaeth dymor hir<br>• Hwyluso opsiynau carthu i'r dyfodol | £150,000 (Cronfeydd Carthu / Adnewyddu) | Mawrth / Ebrill 2012 |

| | Cynllun / Agwedd | Disgrifiad Cryno | Cyfleoedd cysylltiedig | Cost Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 5. | Gwelliannau mordwyo yn y sianel | Mesurau ar gyfer gwella mynediad mordwyo i'r harbwr. Bwriad yn cynnwys ail-leoli angorfeydd yn y sianel ac/ neu gwaith lefelu pellach yn unol â'r angen. | • Sianel naturiol yn cynnig mynediad dwfn i'r harbwr<br>• Gwelliant ar gyfer tymor 2012/13<br>• Ymateb i bryderon am fynediad i'r harbwr<br>• Cyfrannu at strategaeth dymor hir. | £50,000 (Cronfa Adnewyddu) | Mawrth 2012 |
| 6. | Cyfleoedd Cynllun Academi Hwylio Pwllheli | Gwaith rhagbaratoi Cynllun Academi ar waith. Cyfle i gyd-gynllunio a gwneud defnydd pellach o'r peiriannau ac offer carthu i'w defnyddio yn 2013.<br><br>Cyfle i ddiweddaru ac adolygu'r Strategaeth Garthu tymor hir. | • Cyfle i ymgorffori anghenion carthu gyda<br>• Arbedion ariannol wrth gyd-gynllunio<br>• Gwaith rhagbaratoi ar waith<br>• Cynyddu hyder ymysg busnesau lleol<br>• Cynllunio ar gyfer tymor hir | I'w gadarnhau (Cronfa Garthu) | Cyfnod 2012/13 |
| 7. | Hyrwyddo a Marchnata | Ymgyrch hyrwyddo i godi ymwybyddiaeth o'r gweithredoedd o fewn y Cynllun Gweithredu. Marchnata argaeledd angorfeydd ym Mhwllheli i'r sector forwrol, gan dargedu cyhoeddiadau'r diwydiant. | • Codi ymwybyddiaeth o'r camau gweithredu<br>• Cynllun Cyfathrebu – ar gyfer marchnata a rhannu gwybodaeth rhwng wahanol sefydliadau yn lleol<br>• Lleihau nifer o angorfeydd gwag<br>• Cyfle i godi ymwybyddiaeth o fuddsoddiad Academi Hwylio | Rhaglenni gwaith a refeniw craidd | Tachwedd 2011 |
| 8. | Buddsoddiadau yn yr Hafan | Cyfle i gofi ymwybyddiaeth o'r gwelliannau a buddsoddiadau rhaglenedig ar gyfer yr Hafan (e.e. pryniant Hoist newydd) | • Codi ymwybyddiaeth o ymrwymiad y Cyngor i'r Hafan<br>• Gweithredu Cynllun Cyfathrebu<br>• Cynyddu hyder ynghylch ymrwymiad tymor hir | Amrywiol | Tachwedd 2011 |